

Cofnodion cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ar 19 Gorffennaf 2018.

**Mae eitem 11 ar yr agenda wedi cael ei golygu nes bod yr eitem wedi cael ei chyhoeddi rywbryd yn y dyfodol.**

### **Yn Bresennol:**

Ann Evans, Philip Blaker, Isabel Nisbet, Angela Maguire-Lewis, Ellen Donovan (eitemau 1-9), Rheon Tomos, Arun Midha, Claire Morgan, David Jones.

### **Hefyd yn y Cyfarfod:**

Helen Bushell (HB), Alison Standfast (AS), Jo Richards (JR), Kerry Price (KP) – eitemau 1 - 5, Liz Frizi (LF) – eitemau 8 a 9, Emyr George (EG) – eitem 11-12, Rachel Heath-Davies (RHD) - eitem 14, Rebecca Olney (RO) - Llywodraeth Cymru.

### **Ymddiheuriadau:**

Caroline Burt, Robert Lloyd Griffiths, Kate Crabtree, Swyddfa Archwilio Cymru.

## **1. Croeso, Ymddiheuriadau, Datganiadau o Fuddiant, Papurau i'w Nodi**

- 1.1. Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod gan nodi'r ymddiheuriadau.
- 1.2. Gofynnwyd am ddatganiadau o fuddiant; ni wnaed unrhyw ddatganiadau newydd yn ychwanegol at y rhai sydd eisoes wedi'u cofnodi.
- 1.3. Gofynnodd y Cadeirydd a oedd gan yr aelodau unrhyw beth yr hoffent ei drafod yn deillio o'r papurau gwybodaeth. Cytunwyd i drafod Lefelau T yn adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol (eitem 10). Nodwyd yr holl bapurau gwybodaeth eraill (ffioedd a gwasanaethau Cymwysterau Cyffredinol, rheoli risg, strategaeth bobl, trosolwg o'r adroddiad blynyddol, fframwaith sicrwydd y bwrdd, rhagolwg y bwrdd, cofnodion y Pwyllgor Rheoleiddio ac Adnoddau).

## **2. Adroddiad sicrwydd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg**

- 2.1. Cyflwynodd AML, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, ei hadroddiad i'r Bwrdd, gan grynhoi gweithgarwch y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn a'r sicrwydd a gafwyd gan waith archwilio mewnol, archwilio allanol a rheoli. Cadarnhaodd AML fod sesiynau caeedig wedi cael eu cynnal ag archwilwyr mewnol ac allanol yn unol ag egwyddor arfer da. Roedd y naill a'r llall wedi bod yn gadarnhaol iawn ac ni chodwyd unrhyw bryderon.
- 2.2. Dywedodd AML wrth y Bwrdd fod Swyddfa Archwilio Cymru wedi cwblhau ei harchwiliad ac y byddai'n cyflwyno barn ddiamod ar gyfrifon y sefydliad. Tynnodd AML sylw at y crynodeb o'r archwiliadau mewnol a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn a barn yr archwilydd mewn, sef 'boddhaol' yn ôl y disgwyl. Nododd AML hefyd y sesiynau plymio'n ddwfn i ystyried risg a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn, a oedd wedi bod yn ychwanegol at waith y Pwyllgorau yn ystod 2017-18. Gorffennodd AML drwy ddiolch i'r holl staff ac i'r archwilwyr am eu gwaith.

- 2.3. Gofynnodd y Bwrdd faint o archwiliadau mewnol sy'n cael ei ystyried yn arfer gorau i sefydliad o faint ein sefydliad ni. Nododd HB ei bod yn dibynnu ar amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys maint, cyllideb a phroffil risg a'i bod wedi holi'r archwilwyr mewnol blaenorol am y mater hwn. Cadarnhaodd yr archwilwyr eu bod yn fodlon bod nifer a maint yr archwiliadau wedi rhoi cyfle iddynt asesu eu barn yn gyfforddus ar gyfer barn flynyddol y pennaeth archwilio mewnol. Cefnogodd aelodau eraill o'r Bwrdd yr ymateb.

### **Crynodeb o'r Argymhellion:**

- i. Nododd y Bwrdd adroddiad blynyddol Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg i'r Bwrdd.

## **3. Cyfrifon Ariannol Blynyddol 2017-18**

- 3.1. Cyflwynodd Alison Standfast (AS) yr eitem drwy ddiolch i'r staff am eu hymdrechion wrth baratoi'r cyfrifon a'r gwaith a fu'n sail iddynt. Cadarnhaodd AS fod SAC wedi rhoi barn ddiamod ar y cyfrifon.
- 3.2. Rhoddodd KP drosolwg o'r papur a gyhoeddwyd ar y cyd â'r cyfrifon, gan nodi bod angen gofyn i'r Bwrdd roi ei gymeradwyaeth i'r Prif Swyddog Gweithredol (fel y Swyddog Cyfrifyddu) lofnodi cyfrifon 2017-18. Amlinellodd KP y broses a gynhaliwyd i ddatblygu a pharatoi'r cyfrifon. Cadarnhaodd KP hefyd y byddai angen i Gadeirydd y Bwrdd lofnodi'r llythyr sylwadau yn ogystal â'r Prif Swyddog Gweithredol.
- 3.3. Trafododd y Bwrdd lefel y dyblygu rhwng y Cyfrifon Blynyddol a'r Adroddiad Blynyddol, gan nodi gofynion 'Llawlyfr Adrodd Ariannol' y llywodraeth o ran y Cyfrifon a Deddf Cymwysterau Cymru o ran yr Adroddiad Blynyddol. Gofynnodd y Bwrdd i'r staff ystyried cynllun pob dogfen y flwyddyn nesaf, gan nodi y byddai angen bodloni'r gofynion ar gyfer pob dogfen.
- 3.4. Trafododd y Bwrdd y cyfrifon a rhoddodd ei gymeradwyaeth i'r Prif Swyddog Gweithredol eu llofnodi. Cytunwyd ar un diwygiad ar dudalen 35.
- 3.5. Diolchodd y Cadeirydd i'r holl staff a fu ynghlwm wrth y gwaith ac i aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg am eu cyfraniadau drwy gydol y flwyddyn.

### **Crynodeb o'r Argymhellion:**

- i. Rhoddodd y Bwrdd ei gymeradwyaeth i'r Prif Swyddog Gweithredol lofnodi'r Cyfrifon Ariannol ar gyfer 2017-18.

## **4. Adolygiad o Berfformiad 2017-18 yn erbyn y Cynllun Busnes**

- 4.1. Cyflwynodd HB yr eitem yn crynhoi'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn (amcanion gweithredol a chyllid), y gwelliannau parhaus a wnaed yn ystod y flwyddyn i'r

trefniadau llywodraethau o ran y cynllun busnes a'r meysydd a nodwyd i aeddfedu'r ffordd rydym yn gweithredu ymhellach.

- 4.2. Trafododd y Bwrdd y cynnwys a nododd fod y flwyddyn wedi bod yn gymharol sefydlog, ond yn y dyfodol efallai y bydd angen mireinio'r cynllun busnes yng nghanol y flwyddyn er mwyn ymateb i faterion sy'n codi. Roedd yn bwysig bod y Bwrdd yn rhan o unrhyw newidiadau sylweddol i'r cynllun busnes neu'r gyllideb a dylai hefyd chwarae rôl o ran penderfynu ar yr hyn y dylid rhoi'r gorau i'w wneud, ei ddechrau neu ei newid ar lefel strategol. Nododd y Bwrdd hefyd y dylai dyddiadau targed fod yn heriol ond yn synhwyrol.
- 4.3. Nododd y Bwrdd fod y system goleuadau traffig a ddefnyddiwyd ar gyfer y cynllun busnes wedi arwain at welliannau i'r broses adrodd, ond y byddai ffocws manylach ar y berthynas rhwng gweithgarwch gweithredol a gwariant yn fuddiol, lle y bo modd gwneud hynny.
- 4.4. Diolchodd y Bwrdd i HB a KP am y cyflwyniad, gan nodi bod y datblygiadau sydd wedi digwydd a'r rhai sydd yn yr arfaeth yn cynnwys datblygu dull cynllunio tymor hwy.

#### **Crynodeb o'r Argymhellion:**

- i. Trafododd y Bwrdd y perfformiad yn erbyn cynllun busnes 2017-18 a nododd y datblygiadau arfaethedig, gan gynnwys datblygu dull cynllunio tymor hwy.

## **5. Adroddiad ar y Cynllun Gweithredol ac Adroddiad Ariannol Chwarter 1 (2018-19)**

### **Adroddiad ar y Cynllun Gweithredol**

- 5.1. Cyflwynodd HB yr adroddiad yn crynhoi'r sefyllfa ar ddiwedd chwarter un yn erbyn y cynllun gweithredol. Rhoddwyd statws gwyrdd i bob un o'r pum blaenoriaeth weithredol. Roedd pob un ond pedwar o'r is-flaenoriaethau yn wyrdd, roedd y pedair is-flaenoriaeth felyn yn ymwneud ag oedi mewn gweithgareddau ymchwil, datblygu'r cymwysterau newydd ym maes lechyd a Gofal Cymdeithasol a chynnydd tuag at sefydlu trefniadau â'r Tribiwnlys Haen Gyntaf.
- 5.2. Trafododd y Bwrdd y pedair is-flaenoriaeth felyn. Mynegwyd pryder ynglŷn â'r Tribiwnlys Haen Gyntaf a'r oedi o hyd ar ran Llywodraeth Cymru cyn rhoi'r rheoliadau angenrheidiol ar waith. Nododd y Bwrdd y byddai'r oedi yn debygol o olygu na ellid gwario'r gyllideb ddynodedig yn y flwyddyn ariannol hon. Trafododd y Bwrdd hefyd y rhesymau dros y statws melyn ar gyfer cymwysterau lechyd a Gofal Cymdeithasol a'i bod yn debygol o aros yn felyn ar gyfer y dyfodol rhagweladwy. Holodd y Bwrdd am y rheswm dros yr oedi mewn gweithgarwch ymchwil ac ar ôl trafod nododd sylwadau PB fod y broses o gynllunio a chynnal ymchwil yn cymryd amser, ond nad oedd unrhyw effaith ar ganlyniadau pwysig.
- 5.3. Nododd y Bwrdd yr adroddiad hyd at ddiwedd mis Mehefin 2018 (chwarter un).

**Crynodeb o'r Argymhellion:**

- i. Adolygodd y Bwrdd yr adroddiad ar y cynllun gweithredol a nododd y cynnydd hyd at ddiwedd mis Mehefin 2018.

**Adroddiad cyllid**

- 5.4. Cyflwynodd KP yr adroddiad papur ar gyllid sy'n crynhoi'r sefyllfa ar ddiwedd chwarter un. Cadarnhawyd yn yr adroddiad fod y Pwyllgor Adnoddau wedi adolygu'r sefyllfa fanwl a bod y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg wedi adolygu'r broses gyllidebol – yn unol â'u cylch gorchwyl.
- 5.5. Hysbysodd KP y Bwrdd fod amrywiant o £254k yn erbyn proffil y gyllideb. Adolygodd y Bwrdd y meysydd cyllidebol lle y nodwyd amrywiant a nododd y rhesymau dros yr amrywiannau. Awgrymodd y Bwrdd amrywiol feysydd i reolwyr eu hystyried, gan gynnwys cynnal gweithgareddau wedi'u cynllunio at y dyfodol yn gynt lle y bo'n briodol.
- 5.6. Crynhodd KP y sail dros bennu'r gyllideb, yn enwedig mewn perthynas â'r meysydd y cydnabuwyd eu bod yn llai sicr oherwydd nodweddion pob cyllideb a cham datblygu rhai o'r gweithgareddau sylfaenol. Cadarnhaodd KP fod y Bwrdd Rheoli wedi datblygu rhestr o feysydd o wariant ychwanegol pe bai'r gyllideb yn caniatáu hynny, y byddai pob un ohonynt yn dod o fewn cwmplas y cynllun busnes presennol.
- 5.7. Cadarnhaodd KP y byddai proffil misol y gyllideb yn cael ei ailbennu o ddechrau chwarter dau er mwyn adlewyrchu'r gweithgareddau arfaethedig presennol yn fwy cywir. Bydd y gwaith monitro strwythuredig gan y Pwyllgor Adnoddau a'r Bwrdd yn parhau i gael ei wneud.
- 5.8. Cadarnhaodd aelodau o'r Pwyllgor Adnoddau i drafodaeth fanwl a chadarn gael ei chynnal yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor a oedd wedi cynnwys proffil y gyllideb a sut y gellid ei hailbroffio.
- 5.9. Nododd KP fod angen gofyn i'r Bwrdd gymeradwyo trosglwyddiad o £59k i dalu am gostau archwiliadau TGCh ychwanegol o gyrff dyfarnu. Roedd y £59k yn cynnwys cyllid a oedd yn cael ei symud o gostau rhedeg i gostau rhaglenni. Trafododd y Bwrdd y cais i drosglwyddo a chadarnhaodd ei fod yn ei gymeradwyo.

**Crynodeb o'r Argymhellion:**

- i. Nododd y Bwrdd yr adolygiad o'r gyllideb yn chwarter un a chymeradwyodd y cais i drosglwyddo £59k o gostau rhedeg i gyllidebau rhaglenni.

**6. Cofnodion cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ar 16 Mai 2018 a'r Materion sy'n Codi**

- 6.1. Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Mai 2018 yn gofnod cywir o'r cyfarfod, yn amodol ar fân newidiadau. Byddai'r cofnodion yn cael eu cyhoeddi ar wefan Cymwysterau Cymru ar ôl iddynt gael eu cyfieithu.
- 6.2. Cafodd y Bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf am y camau gweithredu yn y cofnodion, yr oeddent i gyd wedi'u cwblhau.

### Materion sy'n Codi

- 6.3. Gofynnodd y Bwrdd am y diweddaraf ar recriwtio i ddwy rôl wag fel aelod Bwrdd a rôl y Cadeirydd. Cadarnhaodd HB fod y ddwy broses yn mynd rhagddynt gyda Llywodraeth Cymru a byddai diweddariad llawnach ar gael maes o law.
- 6.4. Cadarnhaodd AS fod y cynnydd arfaethedig mewn costau gan ddarparwr presennol y system gyllid wedi gostwng yn sylweddol ers y cyfarfod diwethaf.

### Crynodeb o'r Argymhellion:

- i. Cymeradwyodd y Bwrdd y cofnodion gyda mân newidiadau wedi'u nodi.
- ii. Nododd y Bwrdd fod yr holl gamau gweithredu wedi'u cwblhau.

## 7. Adroddiad y Cadeirydd

- 7.1. Roedd y Cadeirydd (AE) wedi paratoi adroddiad ysgrifenedig i'r Bwrdd gan fod nifer o ddiweddariadau a materion i'w trafod.

### *Senarios absenoldeb / is-gadeirydd*

- 7.2. Yn dilyn yr adborth gan yr adolygiad o berfformiad y Cadeirydd, roedd rhywfaint o waith wedi cael ei wneud i nodi gwahanol senarios lle y byddai angen i rywun ddirprwyo dros Gadeirydd y Bwrdd os oedd yn absennol. Roedd y senarios, ynghyd â'r dull gweithredu awgrymedig, wedi cael eu datblygu gan y Cadeirydd, Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol, y Prif Swyddog Gweithredol a'r Cyfarwyddwr Gweithredol, Gwasanaethau Cyllid a Chorfforaethol.
- 7.3. Trafododd y Bwrdd y cynnig i weithredu ar sail senarios ond gofynnodd p'un a fyddai'n fwy priodol dynodi is-gadeirydd neu is-gadeirydd cylchredol. Mynegodd y Cadeirydd bryder am rôl is-gadeirydd ar y sail nad yw'r rôl yn bodoli yn y Ddeddf Cymwysterau Cymru a'r ffaith mai penodiadau cyhoeddus yw pob aelod o'r Bwrdd (heblaw am y Prif Swyddog Gweithredol). Roedd y Cadeirydd hefyd yn teimlo nad oedd maint y sefydliad yn cyfiawnhau is-gadeirydd dynodedig.
- 7.4. Cytunodd y Cadeirydd i geisio cyngor cyfreithiol a chyflwyno diweddariad / cynnig arall i'r Bwrdd yn y cyfarfod nesaf.

## **Cam Gweithredu:AE/HB i geisio cyngor cyfreithiol a chyflwyno diweddariad / cynnig arall i'r Bwrdd yn y cyfarfod nesaf.**

### ***Rôl y Pwyllgor Rheoleiddio***

- 7.5. Dros y misoedd diwethaf, mae rôl y Pwyllgor Rheoleiddio wedi cael ei thrafod ac, yn benodol, lefel y dyblygu / gorgyffwrdd rhwng y pwyllgor a'r Bwrdd. Roedd enghreifftiau o ddyblygu dros y misoedd diwethaf wedi bod yn amlwg. Roedd y Cadeirydd wedi cynnal trafodaethau gyda'r Bwrdd Rheoli a'r Pwyllgor Rheoleiddio ac roedd bellach yn gofyn am sylwadau gan bob aelod o'r Bwrdd cyn llunio barn derfynol. Ymhlith yr opsiynau a gyflwynwyd roedd dileu'r pwyllgor a chynnal pob dadl mewn cyfarfodydd estynedig o'r Bwrdd, mwy o ddirprwyo i'r pwyllgor, datblygu set o egwyddorion i benderfynu ar yr hyn a ystyrir ar agenda pa grwpiau neu barhau â'r sefyllfa bresennol.
- 7.6. Cyflwynodd aelodau o'r Bwrdd wahanol safbwyntiau a oedd yn amrywio o bryder am ddirprwyo cyfrifoldeb i'r Pwyllgor o ystyried ein rôl graidd fel rheoleiddiwr, i eraill a oedd yn credu ei bod yn synhwyrol dirprwyo cyfrifoldebau i'r Pwyllgor a manteisio ar arbenigedd ac ystyriaeth ddyfnach o'r materion.
- 7.7. Daeth y Cadeirydd i'r casgliad y byddai'n myfyrio ar y safbwyntiau a rannwyd ac yn cyflwyno ateb ymarferol i'r Bwrdd. Byddai rôl y Pwyllgor yn parhau'n unol â'i gylch gorchwyl yn y cyfamser.

## **Cam Gweithredu:AE i ddychwelyd i'r Bwrdd ynghylch rôl y Pwyllgor Rheoleiddio.**

### ***Rheoli ymatebion i'r hysbysiad o fwriad i gyfyngu ar gymwysterau Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig***

- 7.8. Yn dilyn penderfyniad y Bwrdd i weithredu ar yr argymhellion a wnaed gan yr adolygiad o Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig ar 16 Mai, gofynnwyd i'r Bwrdd gadarnhau p'un a oedd yn fodlon ystyried unrhyw sylwadau a wneir mewn ymateb i'r hysbysiad o fwriad i gyfyngu ar gymwysterau y tu allan i'r pwyllgor oherwydd amseriad y penderfyniad rhwng cyfarfodydd y Bwrdd.
- 7.9. Cadarnhaodd y Bwrdd ei fod yn fodlon ystyried y penderfyniad terfynol y tu allan i'r pwyllgor. Pe bai unrhyw gymhlethdod, byddai cyfarfod dros y ffôn yn cael ei drefnu.

### ***Y Diweddaraf gan y Cadeirydd***

- 7.10. Nododd gweddill adroddiad y Cadeirydd gyfres o weithgareddau o ran ymgysylltu â rhanddeiliaid, busnes/llywodraethu'r Bwrdd, ymgysylltu gweithredol a ffocws meysydd gwaith eraill
- 7.11. Cadarnhaodd y Cadeirydd fod cyllideb ar waith i ddiwallu anghenion hyfforddiant unigol i aelodau'r Bwrdd eleni ac y byddai HB yn anfon mwy o fanylion.

## **Cam Gweithredu:HB i anfon mwy o fanylion am hyfforddiant a datblygu aelodau'r Bwrdd ar gyfer 2018-19**

7.12. Diolchodd y Bwrdd i'r Cadeirydd am yr adroddiad a nododd y diweddariad.

### **Crynodeb o'r Argymhellion:**

- i. Nododd y Bwrdd y gwaith diweddar ar senarios Cadeirydd absennol/is-gadeirydd a chytunodd i drafod y mater eto yn y cyfarfod nesaf unwaith bod cyngor cyfreithiol ar is-gadeirydd wedi dod i law.
- ii. Trafododd y Bwrdd rôl y Pwyllgor Rheoleiddio a rhoddodd gyfres o sylwadau pellach i'r Cadeirydd eu hystyried ymhellach.
- iii. Cymeradwyodd y Bwrdd y cynnig i ystyried y penderfyniad terfynol i gyfyngu ar gymwysterau Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig y tu allan i'r pwyllgor.
- iv. Nododd y Bwrdd gynnwys cyffredinol diweddariad y Cadeirydd.

## **8. Yr Adolygiad Sector o Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig – Strategaeth Gaffael**

- 8.1. Ymunodd Liz Frizi â'r cyfarfod.
- 8.2. Cyflwynodd AS yr eitem yn cadarnhau ei bod yn ofynnol i'r Bwrdd gymeradwyo'r penderfyniad i ddechrau gweithgarwch tendro wrth gynnal busnes arferol ar gyfer rhwymedigaethau cytundebol â thrydydd partïon uwchlaw £100,000.
- 8.3. Nododd AS a LF na fyddai'r broses gaffael ffurfiol yn dechrau tan yn ddiweddarach yn ystod yr hydref unwaith bod y broses lywodraethu mewn perthynas â chyfyngu ar gymwysterau wedi dod i ben a bod y canlyniad yn hysbys. Os na chymeradwywyd cyfyngiad, yna ni fyddai angen y broses gaffael ffurfiol. Roedd Hysbysiad Gwybodaeth Ymlaen Llaw wedi'i gynllunio i'w ddefnyddio cyn proses dendro ffurfiol ac nid oedd yn ymrwymiad. Mae'n ffordd o hysbysu darpar gynigwyr ein bod yn ystyried proses gaffael ac mae'n lleihau'r posibilrwydd y gall darpar gynigwyr gollir cyfle. Cafodd cyfreithwyr eu penodi i roi'r cymorth priodol i'r broses.
- 8.4. Amlinellodd LF y strategaeth gaffael yn y papur, gan dynnu sylw'n benodol at y ffaith mai contract consesiwn fyddai'r contract, sy'n rhoi hawliau cyfyngol i'r contractwr/contractwyr llwyddiannus.
- 8.5. Trafododd y Bwrdd y strategaeth gaffael arfaethedig, gan ofyn am eglurder ynghylch nifer o feysydd. Cymeradwyodd y Bwrdd y strategaeth.

### **Crynodeb o'r Argymhellion:**

- i. Cymeradwyodd y Bwrdd y gall gweithgarwch tendro ddechrau ar gomisiynu cymwysterau Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig cyfyngedig.

## **9. Contractau Caffael dros £100k**

- 9.1. Cyflwynodd AS yr eitem yn cadarnhau ei bod yn ofynnol i'r Bwrdd gymeradwyo'r penderfyniad i ddechrau gweithgarwch tendro wrth gynnal busnes arferol ar gyfer rhwymedigaethau cytundebol â thrydydd partion uwchlaw £100,000. Cyflwynwyd tri chais am gymeradwyaeth i'r Bwrdd (TG newydd, cyfieithu iaith Gymraeg, cyfreithwyr Rheoleiddio).

### ***Caledwedd TG newydd***

- 9.2. Nododd LF y byddai caledwedd TG newydd yn costio £127k, yn ôl yr amcangyfrif. Byddai'r contract newydd yn cynnwys yr opsiwn i ychwanegu mwy o gyfarpar os bydd twf neu anghenion eraill.
- 9.3. Holodd y Bwrdd am hyd y contract a ph'un a oedd tair blynedd yn briodol. Cadarnhaodd LF y byddai hyn yn ein galluogi i brynu cyfarpar ychwanegol (e.e. i ddechreuwr newydd) yn ystod y cyfnod, gan nodi bod angen cydbwysedd rhwng amllder tendro a diweddarau cyfarpar.
- 9.4. Cadarnhaodd HB y byddai angen cytundeb Llywodraeth Cymru gan mai prosiect TG ydoedd a bod y gost yn fwy na £100k. Cadarnhaodd HB y byddai'n ysgrifennu i Lywodraeth Cymru pe bai'r Bwrdd yn cymeradwyo'r cais.
- 9.5. Trafododd y Bwrdd y cynnig, gan gadarnhau ei gytundeb ar yr amod bod ystyriaeth ofalus i'r hyn sy'n digwydd i'r hen galedwedd.

### ***Gwasanaethau Cyfieithu a Chyfieithu ar y pryd Cymraeg***

- 9.6. Nododd LF fod y contract presennol yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2018. Roeddem wedi ceisio recriwtio cyfieithydd mewnol sawl gwaith, ond yn aflwyddiannus.
- 9.7. Holodd y Bwrdd am hyd y contract a gofynnodd p'un a fyddai'n well ystyried contract pedair blynedd yn hytrach na dwy flynedd ac 1 neu 2+1+1, y gellid ei adnewyddu. Awgrymodd LF fod yr olaf yn rhoi mwy o hyblygrwydd.
- 9.8. Trafododd y Bwrdd y cynnig a chadarnhaodd ei gytundeb, gan nodi y dylai'r penderfyniad ynghylch hyd y contract gael ei wneud gan y Bwrdd Rheoli.

### ***Gwasanaethau Cyfreithiol Rheoleiddiol***

- 9.9. Cadarnhaodd LF fod y gwariant ar y contract presennol yn nesáu at drothwyon yr UE gan fod yr angen busnes am y gwasanaeth wedi cynyddu. Mae hyn yn golygu y bydd angen i'r sefydliad ail-dendro. Nododd LF mai'r bwriad yw cael gwasanaethau gan ein cyfreithwyr presennol gan ddefnyddio fframwaith y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol a chyfarfod â'r GCC i drafod cynnwys ein gofynion yn ei fframwaith newydd a fydd yn destun tendr yn 2019.



9.10. Gofynnodd y Bwrdd a oeddem wedi ystyried defnyddio cyfreithwyr mewnol. Wrth i gost y gwasanaeth gynyddu, mae'r ddadl ynglŷn â gwerth am arian yn codi eto o ran y ffordd orau o sicrhau'r gwasanaeth sydd ei angen. Gofynnodd y Bwrdd hefyd a fyddai secondiadau yn ddichonadwy er mwyn sicrhau arbenigedd cyfreithiol amrywiol.

9.11. Trafododd y Bwrdd y cynnig a rhoddodd ei gymeradwyaeth ar y sail bod y Bwrdd Rheoli yn parhau i ystyried yr opsiwn o ddefnyddio arbenigedd cyfreithiol mewnol.

#### **Crynodeb o'r Argymhellion:**

- i. Cymeradwyodd y Bwrdd y gall y gweithgarwch tendro ddechrau ar gyfer caledwedd TG, Gwasanaethau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd Cymraeg, a gwasanaethau cyfreithiol rheoleiddiol.

### **10. Adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol**

10.1. Cyflwynodd Philip Blaker (PB) adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol, a grynhoir fel a ganlyn:

10.2. Nododd PB fod y sefydliad yn dal i fod yn hynod brysur gyda gwaith yn mynd rhagddo mewn sawl maes. Roedd llawer o'r pynciau allweddol wedi'u cynnwys ar agenda'r Bwrdd, gan gynnwys monitro arholiadau'r Haf, cymeradwyo cymwysterau lechyd a Gofal Cymdeithasol a'r perfformiad gweithredol ac ariannol.

10.3. *Cwricwlwm i Gymru* – cadarnhaodd PB fod rhagor o gynnydd wedi cael ei wneud o ran cynllunio ar gyfer y Cwricwlwm newydd i Gymru a'i bod yn briodol dechrau rhoi rhaglen waith ffurfiol ar waith. Nododd PB ei fwriad i neilltuo Cyfarwyddwr Cyswllt llawn amser ar gyfer y rhaglen cwricwlwm am gyfnod o dair blynedd a gofynnodd am gefnogaeth y Bwrdd i ôl-lenwi lle y bo angen. Cadarnhaodd PB y caiff tîm rhaglen bach ei sefydlu ym mis Awst/Medi a fydd yn ymgymryd â'r cam cychwyn, gan gynnwys amserlennu lefel uchel, datblygu'r dull gweithredu, a gwaith cynllunio ariannol. Y tebyg yw y bydd costau eleni yn rhan o gyllideb y flwyddyn hon.

10.4. *Prosiect Lechyd a Gofal Cymdeithasol* – Nododd PB fod y pryderon a godwyd yng nghyfarfod blaenorol y Bwrdd yn parhau i gael eu rheoli. Roedd y materion wedi cael eu huwchgwyfeirio at uwch staff rheoli yn y cyrff perthnasol ac roedd cynllun cadarnhaol wedi cael ei lunio. Fodd bynnag, roedd cynnydd yn arafach na'r disgwyl.

10.5. *Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig* – cadarnhaodd PB fod y prosiect Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig yn mynd rhagddo. Bu gohebu ag Ysgrifennydd y Cabinet ynghylch y Rhestr o Gymwysterau Blaenoriaethol, sydd bellach wedi cael ei chyhoeddi, ac roedd yr hysbysiad o'r bwriad i gyfyngu yn fyw ar y wefan. Roedd bwrdd prosiect yn ei le i oruchwylio'r prosiect.

10.6. *Cyfarfodydd ag Aelodau o'r Cynulliad* – cadarnhaodd PB fod cyfarfodydd defnyddiol wedi cael eu cynnal ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Darren

Millar AC a Llyr Gruffydd AC i'w briffio ar ddata cofrestru ar gyfer cymwysterau TGAU ac UG/Safon Uwch yr haf. Bwriedir rhoi briffiad i Lynne Neagle AC. Roedd y Cadeirydd, Cassy Taylor a PB wedi cyfarfod â Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes yn gynharach yn yr wythnos mewn perthynas â Lefelau T a materion galwedigaethol eraill. Unwaith eto, roedd y cyfarfod wedi bod yn gadarnhaol.

- 10.7. *Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg* – nododd PB fod y Pwyllgor wedi dechrau ymgynghoriad ymchwiliad ar Fagloriaeth Cymru. Mae'r ymchwiliad hwn yn eang ei gwmpas a gallai fod yn gyfraniad defnyddiol i'n gwaith. Cadarnhaodd PB fod llythyrau wedi cael eu hanfon at Gadeirydd ac aelodau'r Pwyllgor yn rhannu copi o'n hadroddiad diweddar ar Fagloriaeth Cymru ac yn amlinellu'r gwaith y byddwn yn ei wneud.
- 10.8. *Pwyllgor Deisebau* – cadarnhaodd PB ei fod wedi cael gohebiaeth gan y Pwyllgor Deisebau yn dilyn y ddeiseb ynghylch cydraddoldeb cwricwlwm i ysgolion cyfrwng Cymraeg, a oedd yn ymwneud â TGAU Seicoleg. Mae'r Pwyllgor wedi gofyn am ddiweddariad ar y sefyllfa bresennol, gwybodaeth am bynciau TGAU a Safon Uwch nad ydynt ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg ac am esboniad o'r cymorth a roddir i gyrrff dyfarnu. Roedd PB wrthi'n drafftio ymateb, a gaiff ei gymeradwyo ganddo ef a'r Cadeirydd.

### **Crynodeb o'r Argymhellion:**

- i. Nododd y Bwrdd adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol a chymeradwyodd ychwanegu swydd cyfnod penodol am dair blynedd i roi cymorth ôl-lenwi perthnasol ar gyfer arweinydd y Rhaglen Cwricwlwm yn ôl y gofyn.

## **11. Cwricwlwm i Gymru - mae eitem wedi cael ei golygu nes bod yr eitem wedi cael ei chyhoeddi rywbryd yn y dyfodol.**

## **12. Cyfres Arholiadau'r Haf**

- 12.1. Cyflwynodd JR y papur, a roddodd wybodaeth a oedd wedi cael ei thrafod eisoes yn y Pwyllgor Rheoleiddio, ynghyd â chynllun ymgysylltu wedi'i ddiweddarau.
- 12.2. Amlinellodd JR gynnwys y papur a oedd yn cynnwys trosolwg o ddata cofrestru'r haf, digwyddiadau a chyfathrebu. Crynhodd JF rai o'r ystadegau allweddol i'r Bwrdd a'r rhesymau posibl dros gynnydd neu leihad yn nifer y cofrestriadau. Nododd JR fod cofrestriadau UG wedi gostwng 8% a bod cofrestriadau Safon Uwch wedi gostwng 5%.
- 12.3. O ran Bagloriaeth Cymru, nododd JR fod cofrestriadau ar gyfer y lefelau Uwch a Chenedlaethol/Sylfaen wedi cynyddu, ond roedd cofrestriadau ar gyfer y lefelau Cenedlaethol a Sylfaen Ôl-16 wedi gostwng. Gofynnodd y Bwrdd am eglurder ynghylch safbwynt Llywodraeth Cymru ar fabwysiadu cyffredinol. Nododd RO fod angen cael eglurhad o'r safbwynt o fewn Llywodraeth Cymru ac yna'i gyfleu.

- 12.4. Rhoddodd JR drosolwg lefel uchel o'r digwyddiadau a gofnodwyd, gan nodi bod rhai yn ddigwyddiadau na ellid eu hosgoi a bod rhai yn fwy arwyddocaol nag eraill. Gofynnodd y Bwrdd sut roedd y digwyddiadau cofnodedig yn cymharu â blynyddoedd blaenorol. Nododd JR ei bod yn anodd cymharu gan fod pob digwyddiad, ni waeth pa mor ddibwys, wedi cael ei gofnodi eleni, a oedd yn wahanol i flynyddoedd blaenorol.
- 12.5. Cadarnhaodd JR fod y broses o farcio papurau arholiad yn mynd rhagddi yn ôl y bwriad.
- 12.6. O ran cyfathrebu, roedd amrywiaeth o ddeunyddiau wedi cael eu paratoi, gan gynnwys deunyddiau ar y we, cardiau post, taflenni, blogiau, erthyglau ffocws a fideos. Roedd sesiynau briffio wedi cael eu cynnal ag undebau athrawon, Aelodau o'r Cynulliad a'r cyfryngau neu eu bod yn yr arfaeth.
- 12.7. Diolchodd y Bwrdd i JR a'i thîm am baratoi ar gyfer y gyfres o arholiadau a'i goruchwyllo. Trafododd y Bwrdd y papur, gan ofyn am eglurder mewn manau penodol a chadarnhaodd ei fod wedi nodi'r papur.

### **Crynodeb o'r Argymhellion:**

- i. Nododd y Bwrdd y diweddariad ar gyfres arholiadau'r haf a'r cynllun ymgysylltu. Nododd y Bwrdd hefyd fod y Pwyllgor Rheoleiddio wedi trafod yr eitem yn fanwl yn ei gyfarfod ar 2 Gorffennaf 2018.

### **13. Ymchwil – Adroddiad ar Hyder y Cyhoedd**

- 13.1. Gohiriwyd yr eitem i Diwrnod Datblygu'r Bwrdd ym mis Medi.

### **14. Polisi Rheoleiddiol**

- 14.1. Ymunodd Rachel Heath-Davies â'r cyfarfod.

### ***Yr Amodau Cydnabod Safonol Diwygiedig***

- 14.2. Cyflwynodd RHD y papur, gan nodi mai'r Amodau Cydnabod Safonol yw'r brif ddogfen reoleiddio i Gyrrff Dyfarnu gael eu cydnabod yn ei herbyn ac i Gyrrff Dyfarnu gydymffurfio â hi. Mae'r Amodau Cydnabod Safonol wedi bod yn cael eu hadolygu yn ystod y flwyddyn diwethaf ac mae'r cysylltiadau â Chyrrff Dyfarnu wedi bod yn gadarnhaol.
- 14.3. Nod yr adolygiad oedd gwneud yr Amodau yn gliriach, ac mor hygyrch â phosibl i gyrrff dyfarnu a sicrhau eu bod yn ein galluogi i gyflawni ein swyddogaethau rheoleiddio yng Nghymru. Nod arall yr adolygiad oedd sicrhau bod yr Amodau yn briodol ac yn berthnasol i ddysgwyr yng Nghymru a system gymwysterau Cymru, ac yn unol â'n Deddf a'n polisiau rheoleiddio.

- 14.4. Cynhelir yr adolygiad gan Cymwysterau Cymru, ar y cyd â CCEA ac Ofqual. Rydym wedi cytuno y dylai ein Hamodau Cydnabod fod yn mor gyson â phosibl ei gilydd, ond rydym yn cydnabod y bydd gan bob rheoleiddiwr ei weithdrefnau ei hun i wneud unrhyw newidiadau.
- 14.5. Rhoddodd RHD drosolwg o'r newidiadau sylweddol a oedd yn cael eu cynnig a fyddai'n rhan o'r ddogfen ymgynghori. Nododd Cadeirydd y Pwyllgor Rheoleiddio y bydd yr ymgynghoriad o ddiddordeb mawr i Gyrrff Dyfarnu a bod y model o gydweithio â rheoleiddwyr eraill yn arfer da. Roedd yn Pwyllgor yn barod i argymhell i'r Bwrdd y dylid bwrw ymlaen â'r bwriad i ymgynghori.
- 14.6. Trafododd y Bwrdd y papur, gan gymeradwyo'r bwriad i ymgynghori ar yr Amodau Cydnabod Safonol diwygiedig a dirprwyo'r gwaith o gymeradwyo diwygiadau (at ddbenion ymgynghori) i'r Amodau i'r Prif Swyddog Gweithredol. Nododd y Bwrdd y byddai'r newidiadau arfaethedig terfynol i'r Amodau yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd i'w cymeradwyo yn ddiweddarach ar ôl yr ymgynghoriad.

### ***Polisi Rheoleiddiol ar Chwythu'r Chwiban***

- 14.7. Amlinellodd RHD fod angen gofyn i'r Bwrdd gymeradwyo'r polisi rheoleiddiol ar Chwythu'r Chwiban. Roedd y Bwrdd wedi cymeradwyo fersiwn o'r polisi o'r blaen fel mesur dros dro tra bod ymgynghoriad yn cael ei gynnal ar y polisi.
- 14.8. Cadarnhaodd RHD fod ymgynghoriad wedi'i gynnal, fod ymatebion wedi dod i law ac wedi cael eu dadansoddi a bod y polisi wedi cael ei ddiwygio er mwyn adlewyrchu'r sylwadau perthnasol. Codwyd chwe mater cyffredinol yn yr ymgynghoriad, a adlewyrchwyd yn y papur i'r Bwrdd.
- 14.9. Trafododd y Bwrdd y papur, yr adborth ar yr ymgynghoriad, a'r polisi diwygiedig a chymeradwyodd y polisi. Nododd y Bwrdd y byddai'r cynllun yn cael ei gyhoeddi yn y dyfodol agos.

### ***Polisi Amodau Trosglwyddo a'r Bwriad i Ymgynghori***

- 14.10. Mae paragraff 9.2 o'r Cynllun Dirprwyo yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd gymeradwyo polisiâu sy'n ymwneud â gorfodi a chynigion i Cymwysterau Cymru ymgynghori ar faterion a fydd yn cael effaith sylweddol ar gymwysterau neu'r system gymwysterau.
- 14.11. Cyflwynodd RHD y papur, yn amlinellu bod Deddf Cymwysterau Cymru 2015 yn caniatáu i Cymwysterau Cymru greu amodau arbennig y gall cydnabyddiaeth corff dyfarnu fod yn ddarostyngedig iddynt. Mae'r amodau arbennig hyn yn cynnwys Amodau Trosglwyddo, fel y'u disgrifiwyd yn Atodlen 3 i'r Ddeddf.
- 14.12. Mae pŵer Amod Trosglwyddo yn galluogi Cymwysterau Cymru i gyfarwyddo corff dyfarnu i drosglwyddo cymhwyster i gyrrff dyfarnu arall, fel y byddai'r corff dyfarnu sy'n ei dderbyn yn dyfarnu'r cymhwyster i ddysgwyr. Mae'r Ddeddf yn

llunio'r amod hwn ar gyfer amgylchiadau lle mae effaith andwyol sylweddol ar ddysgwyr, neu lle mae effaith andwyol sylweddol yn debygol.

- 14.13. Ystyriwyd y polisi drafft ar Amodau Trosglwyddo gan y Pwyllgor Rheoleiddio yn 2017, ond penderfynwyd bod angen gwneud rhagor o waith ar y polisi. Mae'r polisi wedi cael ei ddatblygu ymhellach erbyn hyn ac yn dilyn adolygiad yn fewnol a chan y Pwyllgor Rheoleiddio cafodd ei gyflwyno i'r Bwrdd fel drafft. Gofynnwyd i'r Bwrdd gymeradwyo'r bwriad i ymgynghori ar y polisi, gan nodi y byddai'r drafft terfynol yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd ei gymeradwyo.
- 14.14. Trafododd y Bwrdd y polisi a nododd Cadeirydd y Pwyllgor Rheoleiddio y gwaith sylweddol a wnaed i ddatblygu'r polisi ymhellach a diolchodd i RHD a'i chydweithwyr am y gwaith a wnaed. Cymeradwyodd y Bwrdd y bwriad i ymgynghori ar y polisi, gan nodi y byddai'r polisi yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd ei gymeradwyo.

#### **Crynodeb o'r Argymhellion:**

- i. Cymeradwyodd y Bwrdd y bwriad i ymgynghori ar yr Amodau Cydnabod Safonol diwygiedig a dirprwyo'r gwaith o gymeradwyo diwygiadau (at ddibenion ymgynghori) i'r Prif Swyddog Gweithredol. Nododd y Bwrdd y byddai'r newidiadau arfaethedig terfynol i'r Amodau yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd i'w cymeradwyo yn ddiweddarach ar ôl yr ymgynghoriad.
- ii. Cymeradwyodd y Bwrdd y Polisi Rheoleiddiol ar Chwythu'r Chwiban.
- iii. Cymeradwyodd y Bwrdd y bwriad i gynnal ymgynghoriad 12 wythnos ar y Polisi Amodau Trosglwyddo rhwng mis Awst a mis Hydref 2018.

### **15. Adroddiad y Pwyllgor Rheoleiddio**

- 15.1. Rhoddodd Cadeirydd y Pwyllgor y diweddaraf ar y prif feysydd busnes o gyfarfod diwethaf y Pwyllgor ar 2 Gorffennaf 2018. Nid oedd y cofnodion ar gael eto am fod cyfarfod y Pwyllgor a chyfarfod y Bwrdd mor agos i'w gilydd. Roedd cofnodion 26 Ebrill 2018 wedi'u cynnwys ym mhecyn y Bwrdd er gwybodaeth.
- 15.2. Roedd y prif eitemau a drafodwyd yn y Pwyllgor ar 2 Gorffennaf yn ymwneud â'r adroddiad ar Ffioedd a Gwasanaethau Cymwysterau Cyffredinol, cyfres arholiadau'r haf, y Polisi Amodau Trosglwyddo, yr Amodau Cydnabod Safonol a rôl y pwyllgor.

#### **Crynodeb o'r Argymhellion:**

- i. Nododd y Bwrdd adroddiad y Pwyllgor fel y'i cyflwynwyd gan Gadeirydd y Pwyllgor Rheoleiddio.

### **16. Adroddiad y Pwyllgor Adnoddau**

- 16.1. Yn absenoldeb Cadeirydd y Pwyllgor, rhoddodd AML y diweddaraf ynghylch y prif feysydd busnes o gyfarfod diwethaf y Pwyllgor ar 10 Gorffennaf 2018. Nid oedd y cofnodion ar gael eto am fod cyfarfod y Pwyllgor a chyfarfod y Bwrdd mor agos i'w

gilydd. Roedd cofnodion 15 Ebrill 2018 wedi'u cynnwys ym mhecyn y Bwrdd er gwybodaeth.

- 16.2. Roedd y prif eitemau a drafodwyd yn y Pwyllgor ar 10 Gorffennaf yn ymwneud ag adolygu a chymeradwyo polisïau adnoddau dynol ar gyfer recriwtio; datblygiad sefydliadol ac urddas yn y gwaith; diweddariad strategol ar adnoddau dynol a oedd yn cwmpasu absenoldeb, rheoli perfformiad a staffio; adolygu'r dull o ymdrin â datganiadau o fuddiant i uwch staff a'r Bwrdd a threulio cryn amser yn adolygu cynllun gweithredol a sefyllfa ariannol chwarter un.

#### **Crynodeb o'r Argymhellion:**

- ii. Nododd y Bwrdd adroddiad y Pwyllgor fel y'i cyflwynwyd gan AML ar ran Cadeirydd y Pwyllgor Adnoddau.

### **17. Penderfyniadau a wnaed y tu allan i'r Pwyllgor**

- 17.1. Cadarnhaodd HB fod un penderfyniad y tu allan i'r pwyllgor, sef cyflwyno ymateb y sefydliad i'r ymgynghoriad ar Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol. Yng nghyfarfod diwethaf y Bwrdd ar 16 Mai 2018, nododd y Bwrdd fod Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ynghylch cynigion i greu corff newydd i reoli Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol. Roedd y dyddiad cau cyn cyfarfod nesaf y Bwrdd. Cytunodd y Bwrdd mai'r Cadeirydd ddylai benderfynu ar y llwybr penderfynu priodol ar gyfer yr ymateb i'r ymgynghoriad Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol. Ar ôl bwrw golwg dros ffurflen yr ymgynghoriad a drafftio ymateb Cymwysterau Cymru, penderfynodd y Cadeirydd fod angen i'r Bwrdd roi sylw iddo. Edrychodd grŵp bach o aelodau'r Bwrdd ar ymateb drafft Cymwysterau Cymru, gan wneud sylwadau. Yna, cyflwynwyd yr ymateb.

#### **Crynodeb o'r Argymhellion:**

- i. Nododd y Bwrdd yr ymateb i'r ymgynghoriad a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru.

### **18. Calendr y Bwrdd**

- 18.1. Nododd HB y calendr o gyfarfodydd sydd ar waith hyd a nodwyd ar yr agenda at fis Gorffennaf 2019. Byddai cyfarfod nesaf y Bwrdd yn cael ei gynnal ar 24 Gorffennaf 2018. Cadarnhaodd HB fod diwrnod datblygu'r Bwrdd wedi'i drefnu ar 27 Medi 2018.

### **19. Unrhyw Fater Arall**

16  
17  
18  
19

19.1 Cadarnhaodd HB fod papur briffio i'r Bwrdd wedi cael ei ddatblygu ac y byddai'n cael ei ddisbarthu'n fuan. Anogwyd aelodau'r Bwrdd i roi adborth.

19.1.

19.2. Diolchodd y Cadeirydd i bawb am ddod ac am gyfrannu at y cyfarfod.

Daeth y cyfarfod i ben am 16.20.

Diwedd